



YSGOL BRYNREFAIL

PELDROED CWPAN CYMRU DAN 16 ROWND GO-GYNDERFYNNOL

Dydd Iau 25ain Chwefror 2010, daeth tim pêl droed Ysgol Gyfun Aberaeron i Lanrug i herio tim pêl droed bechgyn dan 16 Ysgol Brynrefail, mewn gêm go-gynderfynol Cwpan Cymru. Yr oedd yn haul yn disgleirio'n llachar a gwynt cryf yn chwythu, penderfynodd Brynrefail chwarae yn erbyn y gwynt a'r haul yn yr hanner gyntaf, gyda'r amcan o gadw'r sgôr yn gyfartal erbyn hanner amser.

Gyda'r gwynt are eu cefnau Aberaeron cafodd y gorau o'r hanner cyntaf gyda dau gyfleu gwych yn cael eu methu. Roedd y taclo yn ffyrnig ac roedd Brynrefail yn ffodus iawn o gyrraedd hanner amser gyda'r gêm yn ddi-sgôr, gyda Carwyn Eddy, y golgeidwad wedi cadw'r tim cartref yn y gêm.

Gwnaethpwyd newidiadau tactegol gan Mr Holland yn ystod yr egwyl, gyda Gruffydd John yn mynd i'r rheng flaen a Siôn Kyle i'r asgell chwith. O fewn deg munud fe weithiodd y cyfnewid, Gerallt Jones a Jamie McDaid yn chwarae'r symudiad 1-2, yna Gerallt yn croesi'r bel o'r chwith, gyda Gruffydd John yn y fan a'r lle i sgorio'n wych.



Er gwaethaf ymdrechion Aberaeron i drechu'r amddiffyn Brynrefail, yr oeddynt yn gadarn gyda Aaron Gwyn yn cael gem wych i rwystro unrhyw ffordd drwodd. Yr oedd y bêl droed gorau yn cael ei chwarae yn hanner Aberaeron, ac nid oedd yn fawr o sioc pan welwyd Jamie McDaid yn un ac un gyda'r gôl geidwad, sgorio Jamie gan ddwblu mantais Brynrefail. Serch hynny cafodd Aberaeron sbel dda iawn yn y deg munud olaf, ond y sgôr terfynol oedd Brynrefail 2 Aberaeron 0. Heb os nac oni bai Aaron Gwyn oedd chwaraewr gorau'r gêm.

Bydd Brynrefail yn chwarae eu hen elynion, Ysgol Emrys ap Iwan, Abergele, yn y gêm gynderfynol, nhw oedd y tim a drechodd Brynrefail yn ffeinal Cwpan Eryri cyn y Nadolig.

